Hawdd ei ddeall

# Safonau hyfforddiant, dysgu a datblygu diogelu cenedlaethol




Ysgrifennwyd y ddogfen hon gan **Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan** ar **gyfer Gofal Cymdeithasol Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei darllen o [Safonau hyfforddi, dysgu a datblygu diogelu cenedlaethol].

Ebrill 2023

Gweithdrefnau Diogelu Cymru
Wales Safeguarding Procedures

# Sut i ddefnyddio'r fersiwn hawdd ei deall hon


Fersiwn hawdd ei deall yw hon. Mae'r geiriau a'r hyn maen nhw'n ei feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall.



Os oes angen help arnoch chi i ddarllen y ddogfen hon, gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.




Efallai bydd rhai geiriau yn anodd i'w darllen neu eu deall. Mae'r rhain mewn **ysgrifen las**.




Mae esboniad o'r holl eiriau mewn **ysgrifen las** ar **dudalen 75**, ar ddiwedd y ddogfen hon.

Mae'r ddogfen wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan.

**Hawdd ei Ddeall Cymru** dyluniodd y ddogfen hon gan ddefnyddio Photosymbols. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei deall hon, cliciwch yma.

**Rhif trwydded ffotosymbolau 403527247**

# Cynnwys

**Diolch** .......... **4**

**Cyflwyniad** .......... **6**

Y gwahanol grwpiau .......... 8

**Beth yw'r safonau hyfforddiant, dysgu a datblygu diogelu cenedlaethol** .......... **11**

**Egwyddorion cofiadwy** .......... **13**

Grŵp A .......... 13

Grŵp B .......... 20

Grŵp C .......... 32

Grŵp D .......... 52

Grŵp E .......... 60

Grŵp F .......... 68

**Rhestr o eiriau anodd** .......... **75**

# Diolch

**Diolch i'r grwpiau canlynol am helpu i ddatblygu'r safonau hyfforddiant, dysgu a datblygu cenedlaethol:**

- Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC)
- Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
- Grŵp Rheolwr Hyfforddiant Cymru Gyfan
- Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro
- Arolygiaeth Gofal Cymru
- Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg
- Heddlu Dyfed Powys, ar ran pedair ardal heddlu Cymru
- Blynyddoedd Cynnar Cymru
- Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Gwent
- Addysg a Gwella Iechyd Cymru
- Gwasanaethau Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- M and D Care / Fforwm Gofal Cymru
- Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru
- Grŵp Cenedlaethol Arweinwyr Diogelu Oedolion
- Grŵp Cenedlaethol Arweinwyr Diogelu Plant
- Tîm Diogelu Cenedlaethol (GIG Cymru)
- Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Gogledd Cymru
- Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol
- PACEY Cymru
- Grŵp Pobl
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Gofal Cymdeithasol Cymru
- Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
- Llywodraeth Cymru
- Bwrdd Diogelu Gorllewin Morgannwg




Diolch i Gadeiryddion y Byrddau **Diogelu** Rhanbarthol a'r Bwrdd **Diogelu** Annibynnol Cenedlaethol am gefnogi a chymeradwyo'r gwaith hwn.



Diolch hefyd i'r holl is-grwpiau eraill, grwpiau sector a'r grŵp cynrychiolwyr proffesiynol sydd wedi cyfrannu at y gwaith hwn.

# Cyflwyniad




**Diogelu** yw unrhyw beth sy'n cael ei wneud i helpu i gadw person yn ddiogel rhag **camdriniaeth**, **niwed** neu **esgeulustod**.



Mae'r **safonau hyfforddiant, dysgu a datblygu cenedlaethol** yn rhestr o bethau mae angen i bobl eu gwybod neu eu gwneud yn eu rôl i gadw eraill yn ddiogel rhag **niwed**.




Mae'r safonau yr un fath ledled Cymru.

Mae'r safonau yn helpu sefydliadau i wybod:




- Wrth bwy i sôn am **ddiogelu**.



- Beth i'w ddweud wrth bob gweithiwr am **ddiogelu.**




- Beth yw **Gweithdrefnau Diogelu Cymru**, sy'n dweud beth sy'n rhaid i bob gweithiwr ei wneud os ydyn nhw'n credu bod rhywun mewn perygl o ddioddef **camdriniaeth**, **niwed** a neu **esgeulustod**.



Mae **diogelu** yn cynnwys plant, pobl ifanc hyd at 18 oed ac oedolion sydd mewn perygl o ddioddef **camdriniaeth**, **niwed** a neu **esgeulustod**.

# Y gwahanol grwpiau



Yn y safonau **diogelu**, mae'r gair **ymarferydd** yn disgrifio'r bobl sy'n cael eu hyfforddi.



**Ymarferydd** yw unrhyw un sy'n cael ei dalu neu sy'n gwirfoddoli.





Does dim angen i'r holl **ymarferwyr** wybod yr un pethau am **ddiogelu**.



Mae angen i rai **ymarferwyr** wybod pethau sylfaenol.



Mae angen i rai **ymarferwyr** wybod llawer mwy.




Yn y **safonau hyfforddiant**, **dysgu a datblygu diogelu cenedlaethol**, mae **ymarferwyr** yn cael eu rhoi mewn 6 grŵp – A, B, C, D, E ac F.

## Y Grwpiau



Mae **Grŵp A** yn cynnwys yr holl staff a gwirfoddolwyr o'r meysydd canlynol:

- Gofal cymdeithasol
- Iechyd
- Adrannau awdurdodau lleol
- Addysg – meithrinfeydd, ysgolion a cholegau
- Yr heddlu a'r gwasanaeth prawf
- Elusennau, mudiadau 3ydd sector
- Rhywun arall sy'n cael arian gan awdurdodau lleol neu wasanaethau iechyd i weithio gyda phobl



Mae **Grŵp B** yn cynnwys pawb sy'n cyfarfod â phlant, pobl ifanc neu aelodau o'r cyhoedd fel rhan o'u swydd. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys:

- Gweithwyr cymorth
- Athrawon a chynorthwywyr cymorth
- Gweithwyr **eiriolaeth**



Mae **Grŵp C** yn cynnwys pobl mewn swyddi lle maen nhw'n cael eu talu i gadw pobl yn ddiogel. Mae hyn yn cynnwys **ymarferwyr** sy'n gweithio gyda phlant, teuluoedd ac oedolion:

- I edrych a oes risg o **gamdriniaeth**, **niwed** neu **esgeulustod**.
- I gynllunio i rwystro **niwed** rhag digwydd.
- A chyfarfod â gweithwyr eraill i wneud yn siŵr bod pawb yn gweithio i gadw'r unigolyn yn ddiogel.



Mae **Grŵp D** yn cynnwys pobl sy'n gweithio i **wasanaethau statudol** sy'n gwneud penderfyniadau am **ddiogelu**. Mae hyn yn cynnwys pobl sy'n gweithio i dîm **diogelu'r** rhanbarth.



**Grŵp E** yw'r bobl sy'n arbenigwyr ar **ddiogelu** ac sydd â'r gair olaf ar benderfyniadau **diogelu**.



**Grŵp F** yw'r bobl sy'n gyfrifol am sefydliadau. Er enghraifft, y Bwrdd Cyfarwyddwyr neu Arweinwyr Cynghorau.

# Beth yw'r safonau hyfforddiant, dysgu a datblygu diogelu cenedlaethol



Mae'r safonau'n dangos beth mae'n rhaid i bob gweithiwr ei wybod neu allu ei wneud ar gyfer ei rôl.




Mae'n rhaid i bawb wybod yr un pethau â Grŵp A. Mae angen gwybodaeth ychwanegol ar grwpiau B, C, D, E ac F i wneud eu gwaith.



Mae angen i rai pobl hyfforddi eto bob yn hyn a hyn. **Hyfforddiant gloywi** yw'r enw ar hyn.

Mae'r safonau wedi cael eu hysgrifennu gan Gofal Cymdeithasol Cymru a phobl o wahanol sefydliadau sy'n gweithio i gadw pobl yn ddiogel.




Mae’r safonau yn dilyn deddfau Cymru a’r Deyrnas Unedig, a’r canllawiau am **ddiogelu**.




Yng Nghymru, mae 2 syniad neu **egwyddor** y mae’n rhaid i bawb eu dilyn o ran **diogelu**.



1. Mae **diogelu** yn gyfrifoldeb i bawb.



2. Mae’n rhaid i’r plentyn neu’r unigolyn fod yn ganolog i’r gwaith mae pawb yn ei wneud.



Ar ddechrau gwybodaeth pob Grŵp, mae rhestr o’r pethau pwysicaf mae angen i’r grŵp hwnnw eu gwybod neu eu gwneud. Yr **egwyddorion cofiadwy** yw’r enw arnyn nhw.

# Egwyddorion cofiadwy

## Grŵp A



Mae Grŵp A yn cynnwys yr holl staff a gwirfoddolwyr o:

- Gofal cymdeithasol
- Iechyd
- Adrannau awdurdodau lleol
- Yr heddlu a'r gwasanaeth prawf
- Addysg – meithrinfeydd, ysgolion a cholegau
- Elusennau, mudiadau 3ydd sector
- Rhywun arall sy'n cael arian gan awdurdodau lleol neu wasanaethau iechyd i weithio gyda phobl



**Egwyddorion cofiadwy:**

- Rwy'n gwybod beth yw ystyr y term **diogelu**.
- Rwy'n gwybod beth i gadw llygad amdano.
- Rwy'n gwybod i bwy y dylwn i roi gwybod.

Mae 3 rhan i'r pethau mae'n rhaid i Grŵp A ei wybod:



1. **Sut i weithio mewn ffyrdd sy'n cadw pobl yn ddiogel rhag camdriniaeth, niwed a neu esgeulustod.**



2. **Y ffactorau, sefyllfaoedd ac ymddygiad sy'n arwydd y gallai rhywun fod yn dioddef o gamdriniaeth, niwed a neu esgeulustod.**



3. **Sut i ymateb, adrodd a chofnodi os ydych chi'n meddwl bod rhywun mewn perygl o ddioddef camdriniaeth, niwed a neu esgeulustod.**

**1. Sut i weithio mewn ffyrdd sy'n cadw pobl yn ddiogel rhag camdriniaeth, niwed a neu esgeulustod.**




- Gwybod beth mae'r gair '**diogelu**' yn ei olygu.



- Deall y gwahanol fathau o **gamdriniaeth** ac **esgeulustod**. Maen nhw'n cael eu disgrifio yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.



- Gwybod pethau rydych chi'n eu gweld neu'n sylwi arnyn nhw sy'n arwydd o **gamdriniaeth**, **niwed** a neu **esgeulustod**.



- Gwybod am ffyrdd eraill y gallai rhywun fod mewn perygl o **gamdriniaeth**, **niwed** a neu **esgeulustod.** Er enghraifft:
  - ar y rhyngrwyd
  - gweld pobl yn eich teulu yn cael eu brifo gan aelod arall o'r teulu. **Camdriniaeth** domestig yw'r enw ar hyn
  - bwlio, troseddau cyfeillio neu droseddau casineb.




- Gwybod pa ddeddfau sy'n rhan o **ddiogelu** a sut maen nhw'n cael eu defnyddio mewn sefyllfaoedd go iawn.




- Deall sut mae'r gyfraith yn cefnogi hawl pobl i fod yn ddiogel rhag **camdriniaeth**, **niwed** a neu **esgeulustod**.



- Gwybod rolau pobl eraill o ran cadw rhywun yn **ddiogel**. Mae hyn yn cynnwys iechyd, ysgolion, gwasanaethau cymdeithasol, **eiriolaeth** a phobl mewn lleoliadau eraill mae'r unigolyn yn ymweld â nhw.



- Gwybod beth mae'n rhaid i bob **ymarferydd** ei wneud.



- Gwneud yn siŵr bod hawliau teuluoedd, gofalwyr a phobl eraill hefyd yn cael eu hystyried

**2. Y ffactorau, sefyllfaoedd ac ymddygiad sy'n arwydd y gallai rhywun fod yn dioddef camdriniaeth, niwed neu esgeulustod.**



- Deall pam mae rhai pobl mewn mwy o berygl o ddioddef **camdriniaeth**, **niwed** neu **esgeulustod**.



- Deall sut mae rhai pethau ynglŷn â pherson neu bethau sydd wedi digwydd iddyn nhw yn gallu arwain at **gamdriniaeth**, **niwed** a neu **esgeulustod**.



- Deall pam nad yw pobl efallai yn sôn am **gamdriniaeth**, **niwed** neu **esgeulustod**.

**3. Sut i ymateb, adrodd a chofnodi os ydych chi'n meddwl bod rhywun mewn perygl o ddioddef camdriniaeth, niwed neu esgeulustod.**



- Gwybod pam mae'n bwysig adroddi os ydych chi'n meddwl bod rhywun mewn perygl o ddioddef **camdriniaeth**, **niwed** a neu **esgeulustod**. **Mae'n rhaid i bawb ei adrodd**.



- Gwybod sut a phryd i'w adrodd.



- Gwybod beth ddylech chi ac na ddylech chi ei wneud os ydych chi'n meddwl bod rhywun yn dioddef **camdriniaeth**, **niwed** a neu **esgeulustod**.




- Gwybod beth i'w wneud os ydych chi wedi adrodd **camdriniaeth**, **niwed** a neu **esgeulustod** ac yn meddwl ei fod yn dal i ddigwydd.



- Gwybod beth sydd angen ei adrodd a'i gofnodi, pryd i wneud hyn a sut i gadw'r wybodaeth.




- Gwybod am **gyfrinachedd**. Beth ddylech chi ac na ddylech chi ei rannu am **ddiogelu**.



- Deall beth allai stopio rhywun rhag rhoi gwybod neu rannu **pryder** am **ddiogelu**, a sut i helpu mwy o bobl i rannu **pryderon**.



- Gwybod beth mae **chwythu'r chwiban** yn ei olygu.

# Grŵp B



Mae Grŵp B yn cynnwys pawb sy'n cyfarfod â phlant, pobl ifanc neu aelodau o'r cyhoedd fel rhan o'u swydd.



**Egwyddorion cofiadwy:**

- Rwy'n rhan allweddol o'r broses **ddiogelu**.
- Rwy'n gwybod pryd, sut ac i bwy y dylwn i adrodd.
- Rwy'n gwneud yn siŵr bod llais yr unigolyn yn cael ei glywed.



Dyma restr o bethau mae angen i **ymarferwyr** Grŵp B eu deall am **ddiogelu**, yn ôl y safonau **diogelu**. Mae rhai pethau yr un fath â rhai Grŵp A, ond gyda mwy o fanylion.

Mae 4 rhan i'r wybodaeth:




1. **Beth mae'r gyfraith a rheolau cenedlaethol yn ei ddweud am ddiogelu.**



2. **Sut i weithio mewn ffyrdd sy'n cadw pobl yn ddiogel rhag camdriniaeth, niwed a neu esgeulustod.**



3. **Y ffactorau, sefyllfaoedd ac ymddygiad sy'n arwydd y gallai rhywun fod yn dioddef camdriniaeth, niwed a neu esgeulustod.**



4. **Sut i ymateb, adrodd a chofnodi os ydych chi'n meddwl bod rhywun mewn perygl o ddioddef camdriniaeth, niwed a neu esgeulustod.**

**1. Beth mae'r gyfraith a rheolau cenedlaethol yn ei ddweud am ddiogelu.**



- Deall y gwahanol fathau o **gamdriniaeth** ac **esgeulustod**. Maen nhw'n cael eu disgrifio yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.



- Gwybod pethau rydych chi'n eu gweld neu'n sylwi arnyn nhw sy'n arwydd o **gamdriniaeth**, **niwed** a neu **esgeulustod.**




- Deall ffyrdd eraill y gallai rhywun fod mewn perygl o **gamdriniaeth**, **niwed** a neu **esgeulustod**. Er enghraifft:
  - ar y rhyngrwyd
  - gweld pobl yn eich teulu yn cael eu brifo gan aelod arall o'r teulu. **Camdriniaeth** domestig yw'r enw ar hyn bwlio, troseddau cyfeillio neu droseddau casineb.




- Gwybod sut mae'r gyfraith yn cefnogi hawl gweithiwr i fod yn ddiogel rhag **camdriniaeth**, **niwed** a neu **esgeulustod**.



- Gwybod rolau posib pobl eraill o ran cadw rhywun yn ddiogel. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau cymdeithasol, iechyd, ysgolion, **eiriolaeth** a phobl mewn lleoliadau eraill mae'r unigolyn yn ymweld â nhw.




- Gwybod sut i wneud beth mae'r gyfraith, canllawiau cenedlaethol, a rheolau am **ddiogelu** yn ei ddweud.




- Deall sut mae'r gyfraith yn amddiffyn pobl rhag **camdriniaeth**, **niwed** a neu **esgeulustod**.



- Bod yn agored ac yn onest gyda phobl os yw pethau'n mynd o'i le neu y gallai fod wedi mynd o'i le. '**Dyletswydd gonestrwydd**' yw'r enw ar hyn.

**2. Sut i weithio mewn ffyrdd sy'n cadw pobl yn ddiogel rhag camdriniaeth, niwed a neu esgeulustod.**



- Gwybod rôl a chyfrifoldebau **ymarferwyr** wrth **ddiogelu**.



- Deall rôl **eiriolaeth** mewn **diogelu**.



- Gwybod sut i feithrin perthynas gyfeillgar gyda'r unigolyn, ei deulu a'i ofalwyr, ac ennill eu hymddiriedaeth.



- Gwybod sut i weithio mewn ffordd sy'n **canolbwyntio ar yr unigolyn** neu sy'n **canolbwyntio ar y plentyn** fel bod yr **ymarferydd** yn dilyn y rheolau **diogelu**.



- Helpu pobl i wneud penderfyniadau a chadw rheolaeth ar eu bywydau er mwyn byw'r bywyd maen nhw eisiau ei fyw.




- Hybu llais yr unigolyn bob amser.




- Cefnogi pobl i gadw cydbwysedd rhwng eu hawliau a'u cyfrifoldebau, a gwneud hyn mewn ffordd sydd ddim yn rhoi'r unigolyn mewn perygl.



- Gwybod sut i weithio fel bod unigolyn yn gallu dweud sut mae'n teimlo a beth sy'n ei boeni. Ddylai'r unigolyn ddim teimlo:

  – yn wirion

  – wedi'i wrthod

  – fel bod rhywbeth drwg yn mynd i ddigwydd

  – nad yw'n cael ei gredu.



- Helpu'r  unigolyn i ddeall y ffordd i gadw ei hun yn ddiogel rhag **camdriniaeth**, **niwed** a neu **esgeulustod**.



- Gwneud pobl yn ymwybodol o beryglon defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, y rhyngrwyd a ffonau symudol.



- Gweithio mewn ffyrdd sy'n  cadw **ymarferwyr** a phobl eraill yn ddiogel rhag **camdriniaeth**, **niwed** a neu esgeulustod.



- Defnyddio amser gyda rheolwr a rhwydweithiau cymorth eraill i feddwl pa mor dda yw **ymarferydd** wrth gadw pobl yn ddiogel rhag **camdriniaeth**, **niwed** a neu **esgeulustod**.



- Gwybod ble i gael cyngor a chymorth, os oes angen.

**3. Y ffactorau, sefyllfaoedd ac ymddygiad sy'n arwydd y gallai rhywun fod yn dioddef camdriniaeth, niwed neu esgeulustod.**




- Deall pam mae rhai pobl mewn mwy o berygl o ddioddef **camdriniaeth**, **niwed** a neu **esgeulustod**.



- Deall sut mae rhai pethau ynglŷn ag unigolyn neu bethau sydd wedi digwydd iddo yn gallu arwain at **gamdriniaeth**, **niwed** a neu **esgeulustod**.




- Deall pam nad yw pobl yn sôn efallai am **gamdriniaeth**, **niwed** a neu **esgeulustod**.



- Gwybod y gweithredoedd, ymddygiadau neu sefyllfaoedd sy'n gwneud **camdriniaeth**, **niwed** a neu **esgeulustod** yn fwy tebygol o ddigwydd.



- Deall ffyrdd y gallai **cyflawnwr** ymddwyn, yn cynnwys:
  - Bwlio.
  - Ymddygiad sy'n rheoli rhywun.
  - Gwneud i'r unigolyn gytuno i bethau nad yw wir eisiau cytuno iddyn nhw. **Rheolaeth drwy orfodaeth** yw'r enw ar hyn.




- Dysgu o adolygiadau ac adroddiadau pan fethodd gwasanaethau atal rhywun rhag marw neu gael ei frifo'n ddifrifol oherwydd **camdriniaeth, niwed** neu **esgeulustod**.

**4. Sut i ymateb, adrodd a chofnodi os ydych chi'n meddwl bod rhywun mewn perygl o ddioddef camdriniaeth, niwed a neu esgeulustod.**



- Gwybod pam mae'n bwysig adrodd peth os ydych chi'n meddwl bod rhywun mewn perygl o ddioddef **camdriniaeth**, **niwed** a neu **esgeulustod**. **Mae'n rhaid i bawb ei adrodd**.



- Gwybod sut a phryd i'w adrodd.



- Gwybod beth ddylech chi ac na ddylech chi ei wneud os ydych chi'n meddwl bod rhywun yn dioddef o **gamdriniaeth**, **niwed** a neu **esgeulustod**.



- Gwybod beth i'w wneud os ydych chi wedi adrodd **camdriniaeth**, **niwed** a neu **esgeulustod** ac yn meddwl ei fod yn dal i ddigwydd.




- Gwybod beth sydd angen ei adrodd a'i gofnodi, pryd i wneud hyn a sut y dylech chi gadw'r wybodaeth.



- Gwybod sut i gofnodi gwybodaeth ysgrifenedig yn gywir. Dylai fod:
    - Yn gywir. Mae hyn yn golygu bod y ffeithiau, fel dyddiadau ac amseroedd, yn iawn, ac nid beth mae gweithiwr yn ei feddwl.
    - Yn glir a hawdd i'w ddeall.
    - Yn cynnwys digon o fanylion.




- Deall y gwahaniaeth rhwng:
    - Ffaith. Beth wnaeth ddigwydd.
    - Safbwynt. Beth ydych chi'n feddwl wnaeth ddigwydd.
    - Barn. Beth ydych chi'n ei feddwl am yr hyn wnaeth ddigwydd.



Mae adroddiadau neu gofnodion yn ddogfennau cyfreithiol sy'n gallu cael eu defnyddio gan yr heddlu neu mewn llys barn.




- Deall **cyfrinachedd**, a phryd y dylai **ymarferwyr** rannu gwybodaeth a phryd  na ddylen nhw rannu gwybodaeth.



- Deall beth allai stopio rhywun rhag rhoi gwybod neu rannu pryder am **ddiogelu**, a sut i helpu mwy o bobl i rannu **pryderon**.



- Gwybod beth mae **chwythu'r chwiban** yn ei olygu.

# Grŵp C



Dim ond pobl mewn swyddi lle maen nhw'n cael eu talu i gadw pobl yn ddiogel sydd yng Ngrŵp C. Mae hyn yn cynnwys **ymarferwyr** sy'n gweithio gyda phlant, teuluoedd ac oedolion.




**Egwyddorion cofiadwy:**

- Rwy'n deall bod llais a rheolaeth pobl yn allweddol i'r broses o wneud penderfyniadau.
- Rwy'n deall rolau a chyfrifoldebau pawb yn y broses **ddiogelu**.
- Rwy'n gallu gwneud penderfyniadau clir a cytbwys.




Ar y dudalen nesaf mae rhestr o bethau mae angen i **ymarferwyr** Grŵp C eu deall am **ddiogelu**, yn ôl y safonau **diogelu**.




Bydd angen i Grŵp C hefyd wybod yr un pethau â Grwpiau A a B.

Mae 11 rhan i'r wybodaeth. Mae gan bob rhan restr o bethau mae angen i'r **ymarferydd** eu gwybod neu eu gwneud:




1. **Rheolau a deddfau am ddiogelu.**



2. **Sut i weithio mewn ffyrdd sy'n diogelu pobl.**



3. **Y ffactorau, sefyllfaoedd ac ymddygiad sy'n gallu arwain at gamdriniaeth, niwed neu esgeulustod.**



4. **Sut i adrodd, ymateb a chofnodi pryderon, datgeliadau a honiadau.**



5. **Canolbwyntio ar yr unigolyn.**



6. Cymryd rhan mewn prosesau **diogelu**.



7. Cefnogi rhywun arall i **ddiogelu** pobl.



8. Gweithio gyda phobl eraill i **ddiogelu** pobl.



9. Bod yn broffesiynol.



10. Gweithio gyda phlant a phobl ifanc.



11. Gweithio gydag oedolion.

**1. Rheolau a deddfau am ddiogelu.**




- Gwybod pa ddeddfau a rheolau sy'n berthnasol i **ddiogelu** a sut maen nhw'n cael eu defnyddio go iawn.




- Deall sut mae'r Ddeddf **Galluedd** Meddwl yn cael ei defnyddio wrth **ddiogelu**.




- Gwybod sut i asesu a yw rhywun yn gallu gwneud penderfyniad. **Galluedd** yw'r enw ar hyn.




- Deall sut mae'r gyfraith yn amddiffyn pobl rhag **camdriniaeth**, **niwed** neu **esgeulustod**.



- Gwybod y gwahanol rolau ac asiantaethau sy'n ymwneud â **diogelu**.




- Bod yn agored ac yn onest gyda phobl os yw pethau'n mynd o'i le neu y gallen nhw fynd o'i le.

**2. Sut i weithio mewn ffyrdd sy'n diogelu pobl.**



- Gwybod y gwahanol rolau sydd gan **ymarferwyr** wrth **ddiogelu**.



- Gwybod am y gwahanol fathau o **eiriolaeth**.



- Meithrin perthnasoedd ac ennill ffydd pobl, teuluoedd a gofalwyr.



- Gadael i bobl wneud penderfyniadau am eu bywydau cymaint â phosib. Esbonio penderfyniadau maen nhw'n eu casáu neu'n anghytuno â nhw.



- Cefnogi hawliau pobl wrth wneud eich gwaith. Gwneud yn siŵr fod pobl yn gallu cymryd risgiau.



- Helpu pobl i rannu eu pryderon a'u teimladau.



- Helpu pobl i wybod sut i gadw eu hunain yn ddiogel.



- Helpu pobl i wybod am beryglon defnyddio'r rhyngrwyd, y cyfryngau cymdeithasol a ffonau symudol.



- Gweithio mewn ffyrdd sy'n eich cadw chi a gweithwyr eraill yn ddiogel. Gweithio'n ddiogel ar eich pen eich hun.



- Meddwl am sut rydych chi'n gweithio a siarad â'ch rheolwr am bethau mae modd eu gwneud yn well.



- Gwybod lle i gael gafael ar gyngor a chymorth os oes ei angen arnoch

**3. Y ffactorau, sefyllfaoedd ac ymddygiad sy'n gallu arwain at gamdriniaeth, niwed neu esgeulustod.**



- Deall pam mae rhai pobl mewn mwy o berygl o ddioddef **camdriniaeth**, **niwed** neu **esgeulustod**.




- Deall sut mae profiadau bywyd unigolyn neu sut maen nhw'n byw yn gallu eu gwneud nhw'n fwy tebygol o ddioddef **camdriniaeth**, **niwed** neu **esgeulustod**.



- Deall pam nad yw pobl efallai yn sôn am **gamdriniaeth**, **niwed** neu **esgeulustod**.




- Deall sut mae ymddygiad rhiant neu ofalwr yn gallu gwneud unigolyn yn fwy tebygol o ddioddef **camdriniaeth**, **niwed** neu **esgeulustod**.




- Dysgu o adolygiadau ac adroddiadau am adegau pan mae pethau'n mynd o'i le o ran **diogelu**.

**4. Sut i adrodd, ymateb a chofnodi pryderon, datgeliadau a honiadau.**




- Mae'r rhain yr un fath â rhai Grŵp B.

5. **Canolbwyntio ar yr unigolyn.**



- Creu gweithleoedd sy'n cynnwys pawb ac yn defnyddio doniau pobl.



- Wrth weithio gyda theulu i weld a oes **camdriniaeth**, **niwed** a neu **esgeulustod** yn digwydd, mae angen ystyried eu crefydd a'u diwylliant.

Er enghraifft, mae'r dillad mae pobl yn eu gwisgo yn gallu bod yn wahanol i'r ffordd rydych chi'n gwisgo.




- Gweithio gyda'r unigolyn, y bobl sy'n agos ato a gweithwyr eraill i greu cynllun i gadw'r unigolyn yn ddiogel.




- Asesu **galluedd** unigolyn i wneud penderfyniadau ynglŷn â risg. Mae'n rhaid i chi gydbwyso hyn gyda'i hawliau a'i gyfrifoldebau.



- Gweithio gydag eraill i asesu neu ganfod a oes **camdriniaeth**, **niwed** a neu **esgeulustod** yn digwydd. **Ymholiad** yw'r enw ar hyn.



- Edrych ar y wybodaeth a gasglwyd mewn **ymholiad** a deall y risg i'r unigolyn, y bobl o'i gwmpas a'r gymuned ehangach.



- Trafod y risg gyda'r unigolyn a chofnodi ei ddymuniadau a'i safbwyntiau.




- Gwneud cynllun gyda'r unigolyn a phobl eraill ynglŷn â'r ffordd orau o gadw'r unigolyn yn ddiogel. Dylai'r cynllun helpu i gael y canlyniad gorau i'r unigolyn.



- Meddwl a chynllunio ar gyfer newidiadau ym mywyd yr unigolyn. Enghreifftiau yw gadael yr ysgol, gadael cartref, dod yn rhiant, mynd yn hŷn.



- Os yw plant neu bobl ifanc yn colli apwyntiadau, ddim yn cael eu casglu neu os ydych chi'n cael eich stopio rhag eu gweld, mae'n rhaid i chi wneud rhywbeth am hynny. Mae'n gallu bod yn arwydd o **gamdriniaeth**, **niwed** a neu **esgeulustod**.

**6. Cymryd rhan mewn prosesau diogelu.**




- Cymryd rhan mewn adolygiadau.




- Dilyn y gyfraith wrth gyflwyno gwybodaeth mewn cyfarfodydd ac mewn adroddiadau ysgrifenedig.




- Deall y ffyrdd o ddarganfod a yw pobl sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol neu asiantaethau eraill yn ymwybodol o blentyn neu oedolyn penodol.




- Mae angen i unrhyw **ddiogelu** geisio cael y canlyniad gorau i'r unigolyn. Dylai **ymarferwyr** ddeall sut mae gwahanol asiantaethau yn gweithio gyda'i gilydd.



- Deall a helpu i fesur pa mor dda mae gwasanaethau'n **diogelu** pobl.



- Gwybod beth i'w wneud os yw rhywun yn cyhuddo **ymarferydd** mewn swydd gyfrifol o **gamdriniaeth**. Dylai hyn gynnwys mynd at reolwyr ar lefel uwch a gofyn am help.

## 7. Cefnogi eraill i **ddiogelu** pobl.



- Cefnogi eraill i wneud yr hyn sydd ei angen i gadw pobl yn ddiogel.



- Gwybod pryd i ofyn am help neu pryd i gynnig help mewn gweithle.



- Deall sut mae **diogelu** pobl yn gallu effeithio arnoch chi a gweithwyr eraill.



- Creu a chefnogi gweithle lle mae pobl yn gallu gwella o ran **diogelu**.



- Siarad am eich gwaith gyda rheolwr.



- Siarad â phobl rydych chi'n eu rheoli am eu gwaith.



- Siarad â phobl eraill rydych chi'n gweithio gyda nhw am waith.



- Rhoi cyngor am ba wybodaeth sy'n bosib ei rhannu, ac nad yw'n bosib ei rhannu.

## 8. Gweithio gyda phobl eraill i **ddiogelu** pobl



- Gweithio gydag eraill i wneud pethau sy'n lleihau'r risg o **gamdriniaeth**, **niwed** a neu **esgeulustod**.



- Chwilio am risgiau a dod o hyd i ffyrdd o leihau'r risgiau - asesiad risg yw'r enw ar hyn.



- Gweithio gydag eraill pan fydd **pryderon diogelu**. Defnyddio eich gwybodaeth a'ch profiad i reoli'r risgiau a helpu pobl i gadw'n ddiogel.



- Bod yn ymwybodol bod gennych chi fwy o rym na'r bobl a'r teuluoedd rydych chi'n gweithio gyda nhw.




- Gwybod pryd i weithio gydag eraill i asesu a rheoli cynlluniau **diogelu.**



- Rhoi gwybod i'ch rheolwyr os yw prinder arian, prinder staff neu broblem arall yn eich atal rhag rhoi gofal a chefnogaeth ddiogel.




- Arwain neu gymryd rhan mewn adolygiadau o ymarfer gweithwyr eraill. Arwain neu gymryd rhan mewn cyfarfodydd gyda gweithwyr proffesiynol eraill.



- Gwybod ble a phryd i ofyn am help.

**9. Bod yn broffesiynol**




- Deall beth yw **adolygiad ymarfer** a sut maen nhw'n digwydd.



- Adolygu eich gwaith **diogelu** eich hun a'ch gilydd yn rheolaidd.



- Newid eich ffordd o weithio er mwyn **diogelu** pobl yn well, ar sail yr hyn rydych chi'n ei ddysgu o adolygiadau.




- Deall **rhannu gwybodaeth**, **cydsynio** a **chyfrinachedd**.



- Gwybod beth yw Bwrdd **Diogelu** Rhanbarthol a beth mae'n ei wneud.




- Deall y cysylltiadau rhwng **diogelu** a'r **System Gyfiawnder Troseddol**.




- Deall y gwahanol fathau o dystion.



- Deall **egwyddorion** goruchwylio a chefnogi **diogelu** gan bobl mewn swyddi tebyg i chi.




- Deall fframweithiau cenedlaethol a lleol ar gyfer asesu risg a **niwed**.




- Gwybod am y cymorth diweddaraf sydd ar gael i deuluoedd.

## 10. Gweithio gyda phlant a phobl ifanc



- Deall beth dylech chi ei wneud a beth mae'r gyfraith yn ddweud am blant sy'n derbyn gofal a phlant sydd wedi bod mewn gofal. Dim ond gwybod digon i wneud eich gwaith sydd angen.



- Deall pan fydd plentyn neu oedolyn angen rhywun arall gyda nhw i'w cadw'n ddiogel. **Hebryngwr** yw'r enw ar y person yma.



- Deall beth ddylai ddigwydd pan fydd plentyn neu berson ifanc yn marw'n annisgwyl.



- Gwybod y bydd rhai pobl yn dweud bod plentyn yn sâl pan nad yw hynny'n wir. A bod rhai pobl yn gwneud plentyn yn sâl ar bwrpas.




- Gwybod am **gydsynio** a **chyfrinachedd** i blant a phobl ifanc dan 16 oed.




- Gwybod sut i wirio a yw plentyn yn gallu **cydsynio**.

**11. Gweithio gydag oedolion.**



- Gwybod beth i'w wneud os bydd oedolyn yn marw a bod **pryderon** am **gamdriniaeth**, **niwed** a neu **esgeulustod**.




- Deall **cydsynio** a **chyfrinachedd** i oedolion.




- Deall a rhoi Deddf **Galluedd** Meddyliol 2005 ar waith wrth gadw pobl yn ddiogel rhag **camdriniaeth**, **niwed** a neu **esgeulustod**.

# Grŵp D



Mae Grŵp D yn cynnwys pobl sy'n gweithio i **wasanaethau statudol** sy'n gwneud penderfyniadau am **ddiogelu**.




Mae hyn yn cynnwys pobl sy'n gweithio i dîm **diogelu'r** rhanbarth.



**Egwyddorion cofiadwy**

- Rwy'n arwain agenda **ddiogelu'r** sefydliad.
- Rwy'n gwneud yn siŵr bod lleisiau pobl yn cael eu clywed ar bob cam o'r broses.
- Rwy'n defnyddio fy ngwybodaeth a'n sgiliau arbenigol i wella arferion **diogelu**.





Bydd angen i bawb yng Ngrŵp D wybod popeth yng Ngrwpiau A, B ac C.



Dyma restr o'r pethau ychwanegol mae angen i Grŵp D eu gwybod. Mae 6 rhan i wybodaeth Grŵp D:




**1. Sut i weithio mewn ffyrdd sy'n diogelu pobl.**



**2. Sut i hybu ymarfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn neu unigolyn.**



**3. Cymryd rhan mewn prosesau diogelu.**



**4. Cefnogi eraill i ddiogelu pobl.**




**5. Gweithio gydag eraill i ddiogelu pobl.**



**6. Bod yn broffesiynol.**

**1. Sut i weithio mewn ffyrdd sy'n diogelu pobl**





Mae'r pethau ar y rhestr hon yr un fath â Grŵp A, B ac C.



**Ymarferwyr** Grŵp D sy'n arwain ar y pethau hyn, ac yn gyfrifol am wneud yn siŵr eu bod nhw'n digwydd.

**2. Sut i hybu ymarfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn neu unigolyn.**




Mae'r pethau ar y rhestr hon yr un fath â Grŵp A, B ac C.



**Ymarferwyr** Grŵp D sy'n gyfrifol am wneud yn siŵr bod y pethau hyn yn digwydd.

**3. Cymryd rhan mewn prosesau diogelu.**



- Edrych ar sut mae pobl eraill yn cydweithio ac asesu **diogelu** i gael canlyniadau gwell i bobl.



- Arwain gwaith eich sefydliad o ran gwirio ansawdd **diogelu**.




- Arwain neu helpu i ddiweddaru rheolau a ffyrdd o weithio eich sefydliad.




- Gwneud yn siŵr bod eich sefydliad yn dilyn y gyfraith o ran **diogelu**.



- Deall sut mae pobl yn gallu rhannu **pryderon** am **gamdriniaeth**, **niwed** neu **esgeulustod** yn eich sefydliad.



- Deall sut mae eich sefydliad, ar bob lefel, yn ymdrin â'r **pryderon** hyn.

**4. Cefnogi eraill i ddiogelu pobl**



- Mae'n rhaid i **ymarferwyr** Grŵp D wneud yn siŵr bod **ymarferwyr** Grŵp C a phobl eraill yn eu tîm yn cael digon o gefnogaeth i **ddiogelu** pobl a dilyn y rheolau.

**5. Gweithio gydag eraill i ddiogelu pobl**



- Helpu i wneud penderfyniadau am bobl sydd mewn perygl gwirioneddol o **gamdriniaeth**, niwed,neu esgeulustod, neu o achosi **camdriniaeth**, **niwed** neu **esgeulustod**.




- Gweithio gydag eraill i **ddiogelu** pobl sy'n wynebu risg.



- Helpu Grŵp E a Grŵp C o ran pwy i'w cynnwys mewn penderfyniadau **diogelu**.



- Cysylltu ag asiantaethau eraill os nad ydyn nhw'n helpu i **ddiogelu** pobl a delio ag **anghydfod**.



- Cadeirio a chymryd rhan mewn adolygiadau a chyfarfodydd eraill.



- Troi at arbenigwyr am gymorth, yn ôl yr angen.





- Rhoi cyngor am reolau a ffyrdd o weithio.



- Helpu gyda dysgu a diweddaru gwybodaeth.



- Dilyn rheolau **cydweithio**.




**6. Bod yn broffesiynol**

- Deall pam rydym ni'n cynnal **adolygiadau ymarfer** a sut i'w harwain.



- Gwirio trwy **adolygiadau diogelu**. Chwilio am wersi y gellir eu dysgu.



- Gwneud yn siŵr eich bod chi a'ch tîm yn gallu cefnogi eich gilydd i **ddiogelu'r** naill a'r llall.



- Defnyddio'r hyn rydych chi'n ei ddysgu i wella cynlluniau ar gyfer sut mae risg a **niwed** yn cael eu hasesu.



- Bod yn arweinydd ar gyfer dangos sut y dylai **diogelu** gael ei wneud.

# Grŵp E



Dyma restr o bethau mae angen i **ymarferwyr** Grŵp B eu gwybod, eu deall neu eu gwneud o ran **diogelu**.




**Grŵp E** yw'r bobl sy'n arbenigwyr ar **ddiogelu** ac sydd â'r gair olaf ar benderfyniadau diogelu.



**Egwyddorion cofiadwy**

- Rwy'n goruchwylio'r holl faterion **diogelu** yn y sefydliad.
- Rwy'n ceisio gwneud yn siŵr bod digon o adnoddau ar gael i gyflawni dyletswyddau **diogelu'r** sefydliad.
- Rwy'n defnyddio fy ngwybodaeth a'm dylanwad i wella arferion **diogelu** yn rhanbarthol ac yng Nghymru.




Dylai **ymarferwyr** Grŵp E wybod popeth y mae Grwpiau A, B, C a D yn ei wybod.

Mae 5 rhan i'r wybodaeth ar gyfer **ymarferwyr** Grŵp E.




**1. Beth y mae'n rhaid i Ymarferwyr Grŵp E fedru ei wneud i arwain ar ddiogelu.**



**2. Beth y mae'n rhaid i Ymarferwyr Grŵp E fedru ei wneud i roi eu rôl arbenigol ar waith.**



**3. Gwybodaeth**



**4. Sgiliau**



**5. Credoau a gwerthoedd**

**1. Beth mae’n rhaid iddyn nhw allu ei wneud i arwain ar ddiogelu**



- **Ymarferwyr** Grŵp E sy’n gyfrifol am yr holl weithgaredd **diogelu**. Efallai nad ydyn nhw’n gwneud gwaith **diogelu** eu hunain, ond yn gofyn i bobl eraill ei wneud. Ond nhw sy’n gyfrifol am wneud yn siŵr bod popeth ar y rhestr hon yn digwydd.




- Gwybod yr un pethau â Grwpiau A i D.



- Gwneud yn siŵr bod pawb yn y sefydliad yn cael amser rheolaidd gyda’u rheolwr. Goruchwylio yw’r enw ar hyn. Wrth oruchwylio, mae’r rheolwr yn gwneud yn siŵr eu bod nhw’n gweithio yn y ffordd gywir i ddiogelu pobl.



- Gwneud yn siŵr bod staff yn cael yr hyfforddiant cywir. Dylai hyn gynnwys dysgu o **adolygiadau ymarfer**.



- Gwneud yn siŵr bod yr un hyfforddiant yn cael ei gynnig i bobl yng ngrwpiau B, C a D o bob math o sefydliadau, fel y gallant hyfforddi gyda’i gilydd.



- Gwneud yn siŵr bod **diogelu** yn dda ac yn gwella.



- Bod yn gyfrifol am **ddiogelu** mewn sefydliad.

**2. Beth y mae'n rhaid i Ymarferwyr Grŵp E fedru ei wneud i roi eu rôl arbenigol ar waith**



- Deall sefyllfa ddiweddaraf eu maes arbenigol.



- Rhoi cyngor ac arweiniad i'r sefydliad fel bod gwasanaethau **diogelu** yn helpu i gadw pobl yn ddiogel rhag **camdriniaeth**, **niwed** a neu **esgeulustod**.





- Rhoi cyngor ac arweiniad i Grŵp F ar faterion **diogelu**. Mae hyn yn cynnwys sut mae gwasanaethau'n cael eu gwirio.



- Rhoi cyngor ac arweiniad i bobl sy'n gofyn i sefydliadau eraill wneud pethau ar eu rhan.


**3. Beth mae'n rhaid iddyn nhw ei wybod.**




- Bod â gwybodaeth fanwl am sut mae cyfreithiau a rheolau Cymru, y DU a'r byd yn effeithio ar **ddiogelu**.



- Gwybod pryd i ofyn am gyngor cyfreithiol a phenderfynu sut i ddefnyddio'r cyngor.




- Arwain ar roi rheolau cenedlaethol ar waith yn y sefydliad, a gwirio pa mor dda maen nhw'n gweithio.



- Gwybod pwy yw'r bobl eraill yng Ngrŵp E a beth yw eu rôl arbenigol.

**4. Sgiliau.**



- Arwain, neu ofyn i rywun arall arwain, rhan ei sefydliad mewn **adolygiad diogelu**. Yn yr adolygiad, maen nhw'n edrych ar y pethau sydd wedi cael eu gwneud yn dda a'r pethau sydd heb gael eu gwneud cystal. Nhw sy'n penderfynu pa gamau i'w cymryd.



- Darparu goruchwylio, gwerthuso a chefnogaeth i **ymarferwyr** Grŵp D.



- Arwain, neu ofyn i rywun arall arwain, adolygiadau o bobl o wahanol fathau o sefydliadau. Mae hyn yn cynnwys gweithwyr iechyd, gweithwyr mewn ysgolion neu wirfoddolwyr.




- Deall pa reolau sydd angen eu newid mewn sefydliad pan fydd newidiadau yn digwydd yn y DU neu ar draws y byd.



- Delio â chwynion am **ddiogelu** a helpu cydweithwyr i gytuno ar **ddiogelu**.



- Bod yn gyfrifol am ddelio gyda'r cyfryngau.




- Deall pa wasanaethau **diogelu** sydd eu hangen nawr ac yn y dyfodol.




- Helpu arweinwyr y sefydliad i wybod faint yw cost gwasanaethau **diogelu**, a deall lle mae angen mwy neu lai o arian.




- Arwain a gweithio gydag eraill sy'n gweithio ym maes **diogelu** ledled Cymru.




- Rhoi cyflwyniadau i arweinwyr y sefydliad.




- Gweithio gydag **ymarferwyr** Grŵp E a Grŵp D eraill ar brosiectau ledled Cymru.

**5. Credoau a gwerthoedd**




Mae'n rhaid i **ymarferwyr** Grŵp E ddilyn sut mae **ymarferwyr** Grŵp D yn ymddwyn ac yn trin pobl.

# Grŵp F



Grŵp F yw'r bobl sy'n gyfrifol am sefydliadau. Er enghraifft, y Bwrdd Cyfarwyddwyr neu Arweinwyr Cynghorau.




Dydyn nhw ddim yn gweithio gyda phobl i'w cadw'n ddiogel rhag **camdriniaeth**, **niwed** a neu **esgeulustod**, ond maen nhw'n gyfrifol am sefydliadau sydd yn gwneud hynny.




**Egwyddorion cofiadwy**

- Rwy'n rhoi arweiniad sy'n cwmpasu **diogelu** yn y sector cyhoeddus ac sy'n hyrwyddo gweithio gydag asiantaethau eraill.
- Rwy'n deall prif feysydd **diogelu** a pham mae'n bwysig.
- Rwy'n cael fy arwain gan **ymarferwyr** Grŵp E pan fydd rhywun mewn perygl o ddioddef **camdriniaeth**, **niwed** a neu **esgeulustod**.




Dylai pobl yng Ngrŵp F wybod yr un pethau â phobl yng Ngrŵp A.




Mae angen iddyn nhw hefyd wneud gwaith ychwanegol neu wybod pethau ychwanegol. Mae 2 ran i'r wybodaeth ar gyfer pobl yng Ngrŵp F.



1. **Beth y mae'n rhaid i Ymarferwyr Grŵp F ei wneud.**




2. **Gwybodaeth ac  ymddygiad.**

**1. Beth y mae'n rhaid i Ymarferwyr Grŵp F ei wneud.**



Mae pobl yng Ngrŵp F yn rhan o gyfarfodydd sy'n goruchwylio'r gwaith o redeg sefydliadau mawr. Mae'n rhaid iddyn nhw wneud yn siŵr bod y pethau ar y rhestr yma'n digwydd yn eu sefydliad.





Mae'r sefydliad yn dilyn y rheolau yng Nghymru a'r DU ar gyfer **diogelu**.



- Dewis cyfarwyddwr i arwain ar **ddiogelu**.




- Gwneud yn siŵr bod y sefydliad yn **diogelu** ac yn amddiffyn pobl yn dda.




- Gwneud yn siŵr bod digon o arian ar gael i hyfforddiant **diogelu** a'r cynllun i gefnogi staff weithio'n dda.



- Gwneud yn siŵr bod staff y sefydliad yn deall gyda phwy y dylen nhw gydweithio a rhannu gwybodaeth â nhw, yn y sefydliad ac o sefydliadau eraill, er mwyn cadw pobl yn ddiogel.



- Gwneud yn siŵr bod y bobl sy'n gyfrifol am redeg y sefydliad yn dda, er enghraifft y Bwrdd Cyfarwyddwyr, yn cael y wybodaeth gywir ac yn gwneud penderfyniadau da. Llywodraethu yw'r enw ar hyn.




- Gwneud yn siŵr bod rheolau **diogelu** a ffyrdd y sefydliad o weithio gyda phlant a gydag oedolion yn gweithio'n dda gyda'i gilydd.

## 2. Gwybodaeth ac ymddygiad



- Deall beth yw **esgeuluster difrifol**. Gwybod pam mae'n gallu digwydd a'r canlyniadau pe bai llys barn yn dod i'r casgliad eu bod wedi **esgeuluso** eu dyletswyddau'n ddifrifol.



- Deall pwy sy'n ymwneud â **diogelu** a beth mae'n rhaid i bob gweithiwr ei wneud. Mae'n rhaid iddyn nhw hefyd wybod pam ei bod hi'n bwysig i bobl weithio gyda'i gilydd.



- Deall dyletswydd ei sefydliad i ymwneud ag adolygiadau, cymryd rhan ynddyn nhw a rhoi'r hyn sy'n cael ei ddysgu ar waith.



- Deall pam mae'n rhaid iddyn nhw ddarparu hyfforddiant fel bod staff yn gwybod sut i ofyn i sefydliadau eraill **ddiogelu** pobl.



- Deall pam mae'n bwysig gwirio diogelwch staff newydd, a staff sydd eisoes yn gweithio yn y sefydliad, i weithio gyda phlant ac oedolion. Mae hyn yn cynnwys defnyddio'r gwasanaeth **fetio a gwahardd**.



- Deall y broses **rheoliadau ac archwiliadau**.



- Os yw sefydliad wedi gofyn i sefydliad arall ddarparu gwasanaeth, deall yr angen i wirio'n rheolaidd bod y gwasanaeth hwnnw'n **diogelu** pobl yn dda.




- Deall yr angen i bobl yng Ngrŵp F wneud yn siŵr bod gan eu sefydliad ffyrdd cadarn a da i ymateb os yw digwyddiad **diogelu** difrifol yn digwydd.




- Mae rheolau'n ymwneud â phwy sydd angen gwybod, ac erbyn pryd. Os nad yw'r sefydliad yn dilyn y rheolau hyn, mae pobl yng Ngrŵp F yn gyfrifol yn llygad y gyfraith.



- Deall yr angen i bobl yng Ngrŵp F fod ag arbenigwyr ar gael iddyn nhw eu holi am **ddiogelu**.

# Rhestr o eiriau anodd

## Adolygiad diogelu

Edrych yn ôl i weld beth oedd yn cael ei wneud, neu sy'n cael ei wneud, i ddiogelu unigolyn. Gweld a fyddai unrhyw beth wedi gallu cael ei wneud yn well, a bod y rheolau wedi cael eu dilyn.

## Adolygiad ymarfer

Edrych yn ôl ar yr hyn a wnaeth ymarferwyr yn ystod y broses ddiogelu.

## Anghydfod

Pan fydd 2 neu fwy o bobl neu sefydliad yn anghytuno am benderfyniad.

## Camdrin

Pan fydd plentyn neu oedolyn yn cael ei drin mewn ffordd ddrwg neu mewn ffordd sy'n ei wneud yn ofnus neu'n anhapus, yn cael ei niweidio, ei frifo neu ei ecsbloetio.

## Canolbwyntio ar y plentyn

Gwrando ar eiriau ac ymddygiad y plentyn a pharchu ei farn a'i ddymuniadau. Gwneud yn siŵr fod llais a rheolaeth y plentyn wrth galon unrhyw benderfyniad.

## Canolbwyntio ar yr unigolyn

Gwrando ar yr unigolyn a pharchu ei farn a'i ddymuniadau. Gwneud yn siŵr bod llais a rheolaeth yr unigolyn wrth galon unrhyw benderfyniad.

## Chwythu'r chwiban

Pan fydd gweithiwr yn meddwl bod gweithiwr arall neu'r sefydliad yn gwneud rhywbeth o'i le. Fel arfer, mae hyn yn digwydd os yw rhywun mewn perygl, neu os yw deddf wedi'i thorri.

### Cydsynio
Cytuno i wneud rhywbeth, neu i rywbeth gael ei wneud.

### Cydweithio
Gweithio gydag eraill a gwneud yr hyn sy'n cael ei ofyn ohonoch chi. O ran diogelu, mae'n golygu gwneud beth sydd angen i chi ei wneud fel rhan o'r broses ddiogelu.

### Cyflawnwr
Rhywun sy'n achosi camdrin, niwed neu esgeulustod.

### Cyfrinachedd
Cadw gwybodaeth am unigolyn yn gyfrinach oni bai bod gwybodaeth yn cael ei rhannu er mwyn ei ddiogelwch.

### Datgeliad / Datgeliadau
Pan fydd rhywun yn dweud eu bod wedi cael eu camdrin, eu niweidio neu eu hesgeuluso.

### Diogelu
Unrhyw beth sy'n cael ei wneud i amddiffyn pobl rhag camdrin, niwed neu esgeulustod.

### Dyletswydd gonestrwydd
Bod yn agored ac yn onest gyda phobl pan mae pethau'n mynd o'i le.

### Egwyddor
Syniad sy'n llywio ffordd o weithio neu wneud pethau.

### Egwyddorion cofiadwy
Y syniadau pwysicaf i'w cofio.

### Eiriolaeth
Codi llais drosoch eich hun, neu rywun yn siarad ar eich rhan chi, i'ch barn chi gael ei chlywed.

### Esgeuluster difrifol
Gwneud rhywbeth mawr o'i le yn y gwaith, neu fethu â gwneud tasg bwysig yn y gwaith.

### Esgeulustod
Peidio â gwneud rhywbeth i ofalu am unigolyn, naill ai ar bwrpas neu'n ddamweiniol. Er enghraifft, peidio â rhoi meddyginiaeth iddyn nhw, eu gadael gartref ar eu pennau eu hunain pan nad yw'n ddiogel neu fethu â'u helpu i gadw'n lân ac yn iach.

### Fetio a gwahardd
Gwiriadau sy'n cael eu gwneud i weld a yw unigolyn wedi'i gael yn euog o drosedd neu o gam-drin, niweidio neu esgeuluso rhywun. Os yw pobl wedi'u cael yn euog o gam-drin, niwed neu esgeulustod, dydyn nhw ddim yn cael gweithio gyda phlant neu oedolion sydd mewn mwy o berygl o ddioddef camdrin, niwed neu esgeulustod.

### Galluedd
Gallu deall a chofio gwybodaeth yn ddigon hir i wneud penderfyniad drosoch eich hun.

### Gwasanaethau statudol

Gwasanaethau sy'n cael eu rhedeg gan y llywodraeth er lles pobl leol. Maen nhw'n cynnwys

- Yr heddlu
- Gwasanaeth Iechyd Gwladol
- Gwasanaethau cymdeithasol

### Hebryngwr

Rhywun cymwys sy'n gofalu am blentyn neu blant yn ystod gweithgareddau.

### Honiad / Honiadau

Dweud bod rhywun wedi gwneud rhywbeth o'i le.

### Niwed

Brifo corff unigolyn neu achosi iddo deimlo'n ddrwg amdano'i hun.

### Pryderon

Meddwl bod rhywun yn cael ei gam-drin, ei niweidio neu ei esgeuluso.

### Rhannu gwybodaeth

Rhoi gwybodaeth i unigolyn arall yn eich sefydliad neu i sefydliad arall. O ran diogelu, mae rheolau'n ymwneud â phwy mae'n rhaid i chi rannu gwybodaeth gyda nhw a phryd.

### Rheolaeth drwy orfodaeth

Gwneud pethau i unigolyn er mwyn ei reoli. Fel arfer, mae'n cynnwys bygythiadau, brifo'r unigolyn neu wneud iddo deimlo'n wael.

### Rheoliadau ac archwiliadau

Mae gan wasanaethau reolau am sut i drin a gofalu am bobl. Yr enw arnyn nhw yw rheoliadau. Archwiliadau yw'r enw ar y drefn o wneud yn siŵr bod gwasanaeth yn dilyn y rheolau.

### Safonau hyfforddiant, dysgu a datblygu diogelu

Rhestr o bethau mae angen i bobl eu gwybod a gallu eu gwneud fel rhan o'u gwaith yn diogelu pobl.

### System Gyfiawnder Troseddol

Unrhyw wasanaeth sy'n delio gyda phobl ar ôl iddyn nhw gael eu harestio. Maen nhw'n cynnwys

- Yr heddlu
- Llysoedd barn
- Carchardai
- Timau troseddau ieuenctid
- Gwasanaethau prawf
- Y Swyddfa Gartref

### Ymarferydd

Unrhyw un sy'n cael ei dalu, neu wirfoddolwr, sy'n gweithio gyda phobl.

### Ymholiad

Gofyn cwestiynau a chasglu gwybodaeth ar ôl i bryder neu ddatgelu i weld a oes angen cadw rhywun yn ddiogel.